Noson Tân Gwyllt

Cysyniadau: **Diogelwch, meddwl am eraill, gwrando.**

Amcan: **Pwysleisio diogelwch ar Noson Tân Gwyllt.**

Cyfarpar: **Amrywiaeth o dân gwyllt.**

Cyflwyniad:

● Dangos amrywiaeth o dân gwyllt. Bydd y plant yn gyfarwydd iawn â'r mwyafrif. Pwysleisio diogelwch ynghyd â meddwl am eraill – plant, oedolion, pobl mewn oed, ac anifeiliaid anwes.

● Atgoffa'r plant o Reolau Noson Tân Gwyllt.

1. Prynu tân gwyllt efo'r marc BS 7114
2. Cadw'r tân gwyllt mewn bocs.
3. Peidio mynd yn agos at dân gwyllt sydd wedi'i danio rhag ofn iddo ffrwydro yn eich wyneb.
4. Peidio byth â thaflu tân gwyllt at rywun arall.
5. Peidio rhoi tân gwyllt yn eich poced.
6. Cadw anifeiliaid anwes yn y tŷ.
7. Y peth gorau i'w wneud yw mynd i noson tân gwyllt wedi'i threfnu gan arbenigwyr fel y frigâd dân.

Stori:

Roedd hi'n dechrau tywyllu ar nos Fercher 5ed o Dachwedd. A dyna lle roedd y tân gwyllt i gyd yn gorwedd yn dawel yn y tun yn siarad ymysg ei gilydd.

'Ydych chi'n edrych ymlaen at heno?' gofynnodd y Roced Anferth gan edrych i lawr ei thrwyn glas ac ysgwyd ei chynffon.

'Wrth gwrs,' meddai'r Chwyrnellwr, 'mi ydw i wedi bod yn y bocs cardfwrdd yn y sied ers rhai wythnosau erbyn hyn.'

'Mewn bocs cardfwrdd?' gofynnodd yr Olwyn Dân. 'Mewn sied? Wel dyna beth gwirion i'w wneud.'

'Oedd 'na dân gwyllt eraill efo ti yn y bocs cardfwrdd?' gofynnodd y Ffon Wreichion.

'O, oedd,' meddai'r Chwyrnellwr. 'Roedd Jac y Neidiwr, Pistyll Emrallt a Gwreichion Amryliw i gyd yn yr un bocs.'

'Mae'n amlwg fod rhywun wedi bod yn esgeulus iawn,' meddai Enfys Danllyd, 'dim ond tanio un fatsien a byddai'r bocs cardfwrdd a'r sied wedi mynd ar dân.'

'Wnaeth hynny ddim digwydd diolch byth,' meddai'r Seren Ffrwydrol, 'mi ydyn ni'n ddiogel yn y tun hwn.'

'Ond mi ddigwyddodd rhywbeth gwaeth na hynny llynedd,' meddai'r Roced Anferth. 'Roedd tad un o'r plant wedi tanio roced oedd yn debyg iawn i mi ond wnaeth hi ddim tanio'n iawn a dyma un o'r plant yn rhedeg at y roced i weld beth oedd wedi digwydd.'

'Beth ddigwyddodd wedyn?' gofynnodd yr Olwyn Dân.
'Wel, mi afaelodd ynddi yn ei law ac mi fuasai wedi gallu ffrwydro yn ei wyneb. Ond diolch byth, wnaeth hynny ddim digwydd.'

'Wel,' meddai'r Gannwyll Ddisglair, 'mi glywais i fod un bachgen bach wedi rhoi tân gwyllt yn ei boced ac un arall wedi taflu tân gwyllt at griw o blant. Ond mi gafodd hwnnw fynd adref yn syth ac i'w wely heb swper.'

'Bachgen gwirion iawn,' meddai'r Seren Ffrwydrol.

'Ond mae gen i un stori hapus,' meddai Enfys Danllyd. 'Mi glywais i am un eneth oedd wedi gwneud yn saff fod ei chi a'i chath wedi eu cau yn ddiogel yn y tŷ cyn i'r noson ddechrau.'

'Ydyn ni'n barod?' gofynnodd Jac y Neidiwr. 'Mae'r amser wedi dod i ni wneud ein gorau.'

Roedd y goelcerth wedi'i thanio a Guto'n llosgi'n braf a dyma un o'r dynion tân yn dod i nôl y tun ...

'Ffwrdd â ni!' meddai'r tân gwyllt efo'i gilydd.

Trafodaeth bellach:

- Pam oedd hi'n beryglus i gadw tân gwyllt mewn bocs cardfwrdd?

- Sut oedden nhw'n fwy diogel mewn tun?

- Pam mae arddangosfa o dân gwyllt yn fwy diogel gyda dynion tân yn bresennol?

Dyfyniad o'r Beibl:

Meddyliwch am bobl eraill gyntaf, yn lle dim ond meddwl amdanoch chi'ch hunain. Philipiaid 2:4 beibl.net

Munud i feddwl:

Cofiwch, fe all yr hyn sy'n hwyl i chi ddychryn pobl eraill.

Emyn: Hon yw fy fflam fach i: Canu Clod 214

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, wnei di ddangos i ni sut i fwynhau ein hunain heb ddychryn pobl mewn oed ac anifeiliaid? Amen.